

Trafod y berthynas rhwng dysgu a pherfformiad

Dechreubwynt: profiad y dysgwr.


- 1 Fel dysgwyr, gallwn i gyd weld ein hunain mewn gwahanol safleoedd ar y dimensiwn isod:

<i>“cyfeiriadedd dysgu”</i>	<i>“cyfeiriadedd perfformiad”</i>
<ul style="list-style-type: none"> • credwn y gall ymdrech arwain at lwyddiant • credwn yn ein gallu i wella ac i ddysgu, ac i beidio â bod yn anhyblyg neu fynd i rigol • mae'n well gennym dasgau heriol lle mae'r canlyniad yn adlewyrchu ein dull o weithio • cawn foddhad gan lwyddiant a ddiffinnir gennym ni'n bersonol wrth wneud tasgau anodd • rydym yn siarad â ni ein hunain; wrth wneud tasg rydym yn siarad ein hunain drwyddi 	<ul style="list-style-type: none"> • credwn fod gallu yn arwain at lwyddiant • mae hi o bwys i ni fod pobl yn meddwl ein bod ni'n alluog, ac yn perfformio'n dda yng ngolwg eraill • rydym yn ceisio boddhad trwy wneud yn well nag eraill • rydym yn pwysleisio cystadleuaeth, arfarnu cyhoeddus • pan fo'r dasg yn anodd rydym yn dangos analluogrwydd: “Alla' i ddim â gwneud X”
<i>Mae gwella perfformiad o bwys i ni</i>	<i>Mae profi perfformiad o bwys i ni</i>

Meddyliwch am eich dysgu eich hun, a'r hyn a wyddoch am ddysgu eich disgyblion - a yw'r dimensiwn hwn yn goleuo'r hyn a wyddoch?

Mae peryglon cyfeiriadedd perfformiad yn wybyddus iawn - gan gynnwys gwaeth perfformiad. Ond mae arferion yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn cyfrannu'n fawr, felly:

- 2 Nodwch isod rai o'r agweddau ar arfer yr ysgol sy'n hybu'r cyfeiriadeddau hyn:



- Gyda chydweithwyr, trafodwch agweddau rydych wedi eu nodi, a dewiswch arferion priodol a allai hybu mwy ar gyfeiriadedd dysgu.